

04470 - Orange Wallet Cardiff W:Layout 1 29/11/2012 08:24 Page 1

## Deunydd i'w ddodi yn eich WALED OREN




90mm x 60mm (mae'r enghreifftiau hyn yn llai o faint)
















# cynllun WALED OREN

Mae'r 'Waled Oren' yn un o nifer o brosiectau cyd-weithiol sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o strategaeth Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth Cymru Gyfan. Helpu pobl ar Sbectrwm Awtistiaeth yn anad dim i ymdopi â thrafnidiaeth gyhoeddus yw ei diben. Mae'r prosiect wedi'i seilio ar gynlluniau sydd eisoes yn cael eu gweithredu yn Nyfnaint a Sir Benfro.

Hoffem ddiolch o galon i'r sefydliadau canlynol am eu cymorth a'u cyfraniad.

ARRIVA Trains Wales Trenau Arriva Cymru · First · Cardiff bus bws Caerdydd · First Great Western · Stagecoach in South Wales · NEWPORT transport · diverse cymru Promoting equality for all · Autism Cymru · The National Autistic Society Cymru / Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru

Dyluniwyd gan Gyngor Bro Morgannwg - 04570 11/12

# cynllun WALED OREN




## Cymorth cyfathrebu i rai mewn angen




Llywodraeth Cymru Welsh Government

CARDIFF CAERDYDD

04470 - Orange Wallet Cardiff W:Layout 1 29/11/2012 08:24 Page 2

# cynllun WALED OREN

**Dyfais i helpu pobl sydd weithiau'n cael ffwdan i egluro eu hanghenion wrth staff trafnidiaeth, yw'r waled oren. Mae ganddi le i ddefnyddwyr ddodi negeseuon ysgrifenedig a gweledol i'w dangos i staff.**


Bydd staff trafnidiaeth ym mhob rhan o Gymru wedi cael eu hyfforddi i adnabod y waled, ac felly'n gwybod eu bod yn rhaid iddynt fod yn amyneddgar a helpu. Bydd y waled yn cael ei chydnabod gan staff Trenau Arriva Cymru a phrif gwmnïau bysiau lleol gan gynnwys First Cymru, Stagecoach, Bws Caerdydd, Bws Casnewydd a Bws Arriva.

**Nid yw'r waled yn caniatáu i ddefnyddwyr deithio am ddim neu'n rhad.**

Am fwy o wybodaeth a thempledi i'w dodi yn y waled ewch i:

**www.valeofglamorgan.gov.uk**
**www.asdinfowales.co.uk**

a gwefannau awdurdodau lleol eraill.










# Defnyddio eich WALED OREN

## Pwy sy'n cael ei defnyddio?

Cynlluniwyd y waled oren ar gyfer pobl sydd am gael help i gyfathrebu â staff wrth ddefnyddio bysiau neu drenau, yn enwedig pobl sy'n dioddef o anhwylder ar Sbectrwm Awtistiaeth.

## Beth yw hi?

Waled sy'n cynnwys pocedi plastig lle cewch ddodi geiriau a lluniau i'ch helpu i egluro eich anghenion wrth staff trafnidiaeth, yw hi. Gellwch gydgyfnewid y geiriau a'r lluniau hyn.

## Sut mae ei defnyddio hi?

Cewch ddangos y waled a'r deunydd sydd ynddi i staff pan fydd angen help arnoch. Mae staff trafnidiaeth yn gwybod am y cynllun waled oren, a byddant yn sylweddoli bod angen cymorth arnoch.

## Creu geiriau a thempledi

Mae templedi ar gael i chi eu defnyddio, neu os mynnwch, cewch greu eich deunydd eich hun i'w ddodi yn y pocedi drwy dorri darnau o bapur 90mm wrth 60mm.

## Mewn argyfwng

Ysgrifennwch fanylion y sawl yr hoffech i ni gysylltu ag ef ar adeg argyfwng, a'u dodi yn y waled. Cewch ddangos y waled i aelod o staff wedyn er mwyn gofyn am gymorth.

## Unrhyw fanteision eraill?

Nid yw'r Waled Oren yn rhoi mantais ariannol i chi nac yn caniatáu i chi gael y flaenoriaeth ar deithwyr eraill. Eich helpu i gyfathrebu yw ei unig bwrpas.

# Cael WALED OREN

Os ydych am gael Waled Oren, dylech gysylltu ag un o'r mannau canlynol:

Neuadd y Sir a Neuadd y Ddinas, Caerdydd

Llyfrgelloedd Sir Gaerdydd gan gynnwys y rhai canlynol:

- Treganna
- Cathays
- Y Llyfrgell Ganolog
- Trelái
- Y Tyllgoed
- Grangetown
- Gogledd Llandaf
- Llanedern
- Llanisien
- Llanrhymni
- Pen-y-lan
- Radur
- Rhiwbeina
- Rhydypennau
- Y Rhath
- Rhymni
- Sblot
- Llaneirwg
- Tongwynlais
- Yr Eglwys Newydd

